

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Enw'r gwasanaeth: Dental Excellence  
Dyddiad y gweithgarwch: 9 Mehefin  
2022

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)

Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Dental Excellence fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Dental Excellence yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat i gleifion ym Mhenfro o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig ar 9 Mehefin 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys yr asesiad risg amgylcheddol mwyaf diweddar.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig am y newidiadau i'r amgylchedd er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y manau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol, system un ffordd ar gyfer y cleifion a'r staff, a chau'r ystafelloedd aros.

Cyflwynwyd mesurau eraill megis staff y dderbynfa yn trefnu apwyntiadau dilynol ac yn cymryd taliadau dros y ffôn. Roedd y rhain yn lleihau faint o amser a dreuliodd y bobl yn y practis ac yn helpu i amddiffyn y cleifion a'r staff.

Roedd y cleifion yr oedd angen iddynt weld y deintydd yn cael eu gwahodd i ddod i'r practis drwy apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol. Eglurodd rheolwr y practis y cysylltwyd â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad a gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt i bennu a oeddent yn peri risg o drosglwyddo COVID-19. Cadarnhawyd yr wybodaeth hon wrth gyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad hefyd.

Dywedwyd wrthym fod gan bob un o'r chwe ystafell driniaeth yr offer i gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol<sup>1</sup> a gosodwyd unedau awyru ac echdynnu mecanyddol ym mhob ystafell driniaeth er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig. Disgrifiodd rheolwr y practis y defnydd o amserydd wyau ar ddrws pob ystafell driniaeth yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol i sicrhau y cafwyd y cyfnod segur cywir<sup>2</sup> rhwng gweld cleifion a glanhau.

---

<sup>1</sup> Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnydd.

<sup>2</sup> Ar ôl i driniaeth sy'n cynhyrchu aerosol gael ei chyflawni, mae angen cyfnod segur priodol. Y cyfnod segur yw'r amser y caiff yr ystafell driniaeth ei gadael heb amharu arni er mwyn i aerosolau setlo yn yr ystafell driniaeth cyn y gellir cychwyn glanhau a chynnal yr apwyntiad nesaf.

---

Dywedwyd wrthym nad oedd y newidiadau a ddisgrifiwyd wedi effeithio ar allu'r practis i ddarparu gweithgareddau cofrestredig. Roedd y practis yn cynnig brysbennu o bell,<sup>3</sup> cyngor dros y ffôn a gwasanaethau cyfeirio yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Roedd hyn yn sicrhau y gellid darparu gofal i'r cleifion yn unol â'u hanghenion.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Er y rhoddwyd yr asesiad risg amgylcheddol i ni, nid oedd hwnnw wedi'i lofnodi na'i ddyddio ac nid oedd fersiynau ohono wedi'u rheoli. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad risg amgylcheddol llawn a sicrhau bod rhaglen asesu reolaidd yn cael ei sefydlu mewn perthynas â'r risgiau amgylcheddol, gan gynnwys cynlluniau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith, eu dyddio, eu diweddarau a'u hadolygu.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r cyfleusterau ar gyfer y cleifion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd wrthym nad oedd yr wybodaeth ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n annog y cleifion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant a sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o gynllun gweithredu a thystysgrif ddiweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>4</sup>
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig a gweithdrefnau glanhau â llaw
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf
- Yr asesiad risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu i Gymru gyfan

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom rai dogfennau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau cyn y gwiriad ansawdd, gan gynnwys polisi glanhau, manylion prosesau glanhau â llaw dyddiedig Ebrill 2022, a chofnodion ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol dros y pythefnos diwethaf.

---

<sup>3</sup> Dyrannu graddau brys er mwyn penderfynu ar drefn y driniaeth o blith nifer o gleifion.

<sup>4</sup> Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd â dihalogi. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

---

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg<sup>5</sup> cyfarpar diogelu personol, wedi'i roi i'r holl staff a bod ystafelloedd gwisgo ar wahân yn cael eu defnyddio yn y practis i leihau croes-heintio. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff clinigol yn gwisgo cyflau cyfarpar diogelu personol yn hytrach na masgiau. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym am y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y staff yn hyderus ac yn gymwys i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol. Yn ogystal â hyfforddiant, roedd posteri gwisgo a diosg yn y ddeintyddfa hefyd.

Disgrifiodd rheolwr y practis sut yr oeddent wedi cynyddu nifer yr ystafelloedd triniaeth o bedair i chwe ystafell driniaeth a bod hyn wedi cynyddu gallu'r practis i sicrhau bod y cleifion yn ddiogel yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym, pan fydd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol yn cael eu cynnal, fod y system awyru fecanyddol yn helpu i leihau'r cyfnod segur rhwng pob claf. Dywedwyd wrthym fod yr holl offer wedi'u tynnu o'r ystafelloedd triniaeth. Roedd pecynnau cleifion unigol o offer wedi'u sterileiddio'n cael eu paratoi cyn apwyntiadau, a dim ond un pecyn o offer wedi'i sterileiddio fesul triniaeth oedd yn cael ei gludo i'r ystafell driniaeth.

Pe bai angen triniaeth frys ar glaf ag arwyddion a symptomau COVID-19, byddai apwyntiad yn cael ei drefnu i'r claf gael ei weld ar ddiwedd y dydd. Pe na bai triniaeth yn cael ei hystyried yn frys, byddai'r driniaeth yn cael ei gohirio nes nad oedd ganddo arwyddion neu symptomau COVID-19.

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw broblemau o ran dod o hyd i gyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig. Roedd y bwrdd iechyd hefyd yn cynorthwyo'r practis trwy ddarparu cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol. Er mwyn sicrhau bod y lefelau stoc o gyfarpar diogelu personol yn ddigonol yn y practis, dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn gwirio lefelau'r stoc yn rheolaidd ac yn swmp-brynu cyflenwadau yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael gwybod am y newidiadau i ganllawiau, prosesau a gweithdrefnau deintyddol yn ystod y pandemig a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrif Swyddog Deintyddol Cymru.

Rhoddyd copïau i ni o amserlenni glanhau'r ddeintyddfa ar gyfer yr wythnos flaenorol, a oedd yn dangos bod y staff yn dilyn y polisi glanhau. Roedd y weithdrefn glanhau â llaw lawn yn dangos bod offerynnau yn cael eu gwahanu a'u glanhau cyn sterileiddio â llaw. Roedd y copïau o'r gwiriadau dyddiol ar gyfer yr awtoclaf a ddarparwyd mewn trefn.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom grynodedb o gynllun gweithredu a thystysgrif Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 dyddiedig Mai 2018. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr archwiliad rheoli heintiau a dihalogi llawn ar goll ac nad oedd archwiliadau rheoli heintiau a dihalogi rheolaidd wedi'u cofnodi ers 2018. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad

---

<sup>5</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

---

rheoli heintiau a dihalogi llawn a sicrhau bod amserlen archwilio rheoli heintiau reolaidd yn cael ei sefydlu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith, eu dyddio, eu diweddaru a'u hadolygu.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad unigolyn cyfrifol) neu, os yw'r unigolyn cyfrifol hefyd yn rheolwr cofrestredig, copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Aseidiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
- Archwiliad cardiau cofnodi
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf<sup>6</sup>
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf<sup>7</sup>

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis wedi parhau i fod ar agor drwy gydol y pandemig. Yn ystod camau cychwynnol y pandemig, cynhaliwyd brysbennu clinigol o bell dros y ffôn cyn i'r cleifion gael cynnig apwyntiad ar y safle. Roedd hyn er mwyn sicrhau mai dim ond y cleifion hynny yr oedd angen apwyntiad personol arnynt oedd yn cael eu gwahodd i safle'r practis. Cynigiwyd cyngor dros y ffôn i gleifion eraill neu cawsant eu cyfeirio at wasanaethau priodol eraill.

Dywedwyd wrthym nad oedd absenoldebau staff wedi effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Roedd y practis yn gweithredu system ddwyochrog gyda 15 o bractisau lleol i

---

<sup>6</sup> Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, neu at ddibenion y practis, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

<sup>7</sup> Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch ceisio barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.

---

gefnogi ei gilydd pe bai angen cau dros dro oherwydd absenoldeb staff.

Dywedwyd wrthym, yn absenoldeb hyfforddiant wyneb yn wyneb, fod y staff yn defnyddio pecyn hyfforddi ar-lein. Byddai'r tystysgrifau hyfforddi'n cael eu hargraffu a'u cadw mewn ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y practis hefyd yn gallu darparu hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb yn wyneb i'r staff ym mis Mawrth 2022.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod system ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am unrhyw newidiadau i ganllawiau, polisiau a gweithdrefnau yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ar gael i'r staff ac y byddai unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau hefyd yn cael eu hanfon at y staff. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal wedyn i drafod unrhyw newidiadau i weithdrefnau ac i sicrhau dealltwriaeth lawn.

Dywedwyd wrthym fod offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd gwiriadau wythnosol wedi'u dogfennu o gyffuriau brys ac offer ategol eraill, roedd y gwiriadau hyn a dyddiadau dod i ben wedi'u dogfennu yn y dyddiadur ar gyfer apwyntiadau i gleifion, ac roedd rhestr wirio i'w gweld ar y wal.

Dywedwyd wrthym fod rhai o'r prosesau archwilio a oedd ar waith wedi aros yr un fath drwy gydol y pandemig a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau yn ymwneud â phelydrau-X a chadw cofnodion.

Dywedodd y practis ei fod wedi sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn gyfartal. Roedd ystafelloedd triniaeth hygyrch ar gael ar y llawr daear. Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio llinell iaith ar gyfer y cleifion nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Gwelsom ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion gyfredol, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Gwelsom gopi o'r adroddiad blynyddol, a baratowyd yn unol â Rheoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom gopiâu o amrywiol bolisiau a gweithdrefnau, gan gynnwys y polisi glanhau, y polisi cydsynio a'r cynllun parhad busnes. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd dyddiad na llofnod ar nifer o'r dogfennau hyn neu nad oeddent yn cynnwys dyddiad adolygu. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn y practis wedi'u llofnodi a'u dyddio, gan gynnwys dyddiad adolygu, er mwyn sicrhau bod y polisiau'n gyfredol.

---



# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Dental Excellence

Dyddiad y gweithgarwch: 9 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Dental Excellence

Dyddiad y gweithgarwch: 9 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gynnal asesiad risg amgylcheddol llawn a sicrhau bod rhaglen asesu reolaidd yn cael ei rhoi ar waith mewn perthynas â risgiau amgylcheddol, gan gynnwys cynlluniau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith, eu dyddio, eu diweddarau a'u hadolygu.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 8(1)	Rydym i fod i gynnal asesiad risg amgylcheddol llawn ym mis Gorffennaf 2022.	Pakavach Leghaei & Kirsty Jackson	I'w gwblhau erbyn 29 Gorffennaf 2022.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n annog y cleifion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018	Rydym wedi cysylltu â'r bwrdd iechyd lleol i weld a ydyw'n gallu helpu gyda hyn.	Pakavach Leghaei & Kirsty Jackson	31 Awst 2022.

os dymunant a sicrhau bod y cleifion yn gallu cael mynediad at wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	Safonau lechyd a Gofal, Safon 3.1: Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Os na, byddwn yn dod o hyd i rywun sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.		
Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad rheoli heintiau a dihalogi llawn a sicrhau bod amserlen archwilio rheoli heintiau a dihalogi reolaidd yn cael ei rhoi ar waith yn flynyddol, gan gynnwys cynlluniau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith, eu dyddio, eu diweddarau a'u hadolygu.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 8(1)	Cyflwynwyd y ffurflen gais ar 21 Mehefin 2022 ac rydym yn aros am ddyddiad cychwyn.	Pakavach Leghaei & Kirsty Jackson	31 Awst 2022.
Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn y practis wedi'u llofnodi a'u dyddio, gan gynnwys dyddiad adolygu, er mwyn sicrhau bod y polisiau'n gyfredol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 8(6)	Rydym eisoes wedi cychwyn ar hyn ac yn bwriadu diweddarau pob polisi gyda dyddiadau adolygu a llofnodion erbyn diwedd Awst 2022.	Pakavach Leghaei & Kirsty Jackson	31 Awst 2022.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:** Pakavach Leghaei a Kirsty Jackson  
**Enw (llythrennau bras):** Pakavach Leghaei a Kirsty Jackson  
**Swydd:** Rheolwr Cofrestredig a Rheolwr y Practis  
**Dyddiad:** 27/06/2022